

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth amdanaf?



Gwybodaeth amdanat ti

Mae'r gyfraith newydd - **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)** - yn golygu bod unrhyw un sy'n casglu gwybodaeth yn gorfod:



- ▶ dweud wrthyt ti **pwyl** ydyn nhw
- ▶ esbonio **pam** eu bod eisiau gwybodaeth gen ti
- ▶ egluro'n glir **beth** maent yn ei wneud efo'r wybodaeth
- ▶ gwneud yn siŵr bod y wybodaeth amdanat ti yn cael ei chadw'n ddiogel
- ▶ dinistrio'r wybodaeth pan na fydd ei hangen eto
- ▶ dweud wrthyt ti beth ydi dy **hawl**iau

PWY?

Bydd yr ysgol a Chyngor Gwynedd yn casglu gwybodaeth amdanat ti.

Rhaid i ni gasglu gwybodaeth amdanat er mwyn dy gadw di'n ddiogel ac i helpu i wneud yn siŵr dy fod yn derbyn addysg dda.

Mae'r wybodaeth yr ydym ni'n ei chasglu amdanat ti yn cynnwys:

- ▶ dy fanylion personol (enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhyw)
- ▶ dy gofnodion presenoldeb ac unrhyw gamau a gymerwyd i ddelio â phroblemau
- ▶ gwybodaeth am unrhyw anghenion addysgol ychwanegol
- ▶ gwybodaeth am gymorth a gei di gan wasanaethau gofal cymdeithasol a darparwyd eraill
- ▶ canlyniadau dy brofion a dy arholiadau

Mae'r wybodaeth yma yn ein helpu ni i wybod pwyl wyt ti a'r hyn sydd ei angen arnat ti.



PAM?

Rydym yn defnyddio gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd. Rydym yn defnyddio'r mathau canlynol o wybodaeth i dy gadw di'n ddiogel:




- ▶ Manylion cyswllt rhieni neu ofalwyr;
- ▶ Gwybodaeth feddygol gan gynnwys unrhyw anghenion meddygol ac unrhyw alergeddau sydd gen ti

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth:

- ▶ i wneud yn siŵr dy fod yn derbyn addysg dda
- ▶ i ddeall os/pryd mae angen cefnogaeth ychwanegol arnat ti
- ▶ i dy ddiogelu a dy amddiffyn

BETH?

Weithiau mae angen i ni rannu gwybodaeth amdanat ti gydag eraill. Os ydym yn gwneud hyn, byddwn yn esbonio gyda phwy a byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei rhannu'n ddiogel.



Dim ond pan fydd gennym reswm cyfreithlon dros wneud hynny y byddwn yn rhannu dy wybodaeth bersonol.


Rhai lleoedd yr ydym yn rhannu dy wybodaeth efo nhw ydy:

- ▶ **Ysgol Newydd** - wrth drosglwyddo o ysgol i ysgol neu o'r cynradd i'r uwchradd
- ▶ Llywodraeth Cymru
- ▶ adrannau perthnasol yn y Cyngor

DY HAWLIAU

Mae gen ti'r hawl:

- ▶ i weld unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanat ti
- ▶ i ofyn i ni newid gwybodaeth sydd yn anghywir yn dy farn di
- ▶ i ofyn i ni beidio â rhannu gwybodaeth amdanat ti, ond dim pan fyddwn ni angen dy gadw'n ddiogel a dy gefnogi
- ▶ i ofyn i ni ddileu dy wybodaeth o'n systemau



Mi fedri di gwyno os wyt ti'n meddwl nad ydym ni'n parchu dy hawliau.

Os wyt ti angen mwy o wybodaeth neu gymorth efo hyn, cysyllta gyda Phennaeth yr ysgol neu:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Cyngor Gwynedd
Pencadlys, Stryd y Jêl,
Caernarfon, LL55 1SH

☎ 01286 685047

✉ Louisejones@gwynedd.llyw.cymru

Gallwch hefyd gysylltu gyda:

The Information Commissioners Office (ICO)

Wycliffe House
Water Lane, Wilmslow
Cheshire, SK9 5AF

🌐 www.ico.gov.uk